VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Dogfen Ymgynghori

**Ar y cynnig i ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion i ateb y galw am addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.**



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.
Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709727 i drefnu hyn.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... 3
**Eglurhad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon** .......... 4
**Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad** .......... 5
**Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff – sut y gallwch chi gael gwybod mwy a rhoi eich barn** .......... 5
**Cefndir y cynnig** .......... 7
**Y cynnig** .......... 8
**Mapiau dalgylchoedd** .......... 9
**Pam ydym yn cynnig gwneud y newidiadau?** .......... 10
**Gwybodaeth am yr ysgol** .......... 11
Ysgolion Saesneg .......... 12
Ysgolion Cymraeg .......... 12
**Perfformiad cyfredol** .......... 14
**Y safonau bwriadedig ar ddeilliannau addysg** .......... 16
**Effaith y cynnig ar y Gymraeg** .......... 19
**Tir ac Adeiladau** .......... 19
**Sut fyddai'r cynnig yn effeithio ar ysgolion eraill?** .......... 20
**Newidiadau i Ddalgylchoedd** .......... 20
**Sut fyddai'r cynigion yn effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?** .......... 20
**Cynllun pontio os caiff y cynigion eu cymeradwyo** .......... 21
**Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion** .......... 21
**Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried** .......... 22
**Adolygu trefniadau o ran dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ei gilydd** .......... 23
**Cyllid – buddsoddi cyfalaf** .......... 23
**Cyllid – costau rhedeg** .......... 23
**Adnoddau Dynol** .......... 23
**Trafnidiaeth** .......... 24
**Trefniadau teithio gan ddysgwyr** .......... 24
**Asesu'r effaith ar gydraddoldeb** .......... 24
**Ystyried yr effaith ar y gymuned** .......... 24
**Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol** .......... 25
**Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol** .......... 25
**Dyddiadau allweddol** .......... 26
**Cwestiynau Cyffredin** .......... 27

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgyngoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sy'n rhan ohonynt, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynigion y Cyngor i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol 25% o leiaf. Mae ysgol newydd â 420 o leoedd ar Lannau'r Barri wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Cynigir y byddai Ysgol Sant Baruc yn symud i mewn i'r adeilad hwn erbyn mis Medi 2021 i ddarparu'r capasiti gofynnol.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw'n ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau (1 filltir).

Mae ein proses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Gofynnir i ystod o unigolion a grwpiau am eu barn ynglŷn â'r cynigion hyn.

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â buddiant wneud eu barn a'u safbwyntiau ynglŷn â'r cynigion yn hysbys er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried y safbwyntiau hyn fel rhan o'i broses benderfynu.

Dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'n hanfodol bod unrhyw adborth yn dod i law erbyn **22 Chwefror 2019** er mwyn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni ellir ystyried unrhyw eitemau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu sut i fwrw ymlaen.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Sant Baruc | Corff Llywodraethu Ysgol Sant Baruc |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Sant Baruc | Cyngor Tref y Bari |
| Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (PDBC) Bro Morgannwg |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad | Cynghorwyr Lleol |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | Comisiynydd y Gymraeg |

| | |
|---|---|
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Estyn | Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Undebau Llafur |
| Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu | Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |

**Tabl 1 – Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori**

## Eglurhad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**'Nifer Derbyn'** – Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at o leiaf eu nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd disgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

**'CACCDC'** (Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru) – Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

**'Y Ddeddf Cydraddoldeb'** – Mae'r Ddeddf yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd ysgol sy'n ymwneud â'r ffordd y mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, cyflogeion ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bopeth y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, peidio â gwahaniaethu a pheidio â rhoi unigolion na grwpiau o bobl dan anfantais. Yn arbennig, rhaid i ysgol beidio â gwahaniaethu.

**'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb'** – Proses yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi'i bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchodedig.

**'PYADd'** – Prydau Ysgol Am Ddim.

**'ALl'** – Awdurdod Lleol sy'n golygu Cyngor Bro Morgannwg.

**'Nifer ar y gofrestr'** – nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol.

**'CYBLD'** (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) – Ym mis Ionawr bob blwyddyn, caiff gwybodaeth wedi'i dilysu ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ynghylch y Gymraeg, cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig ac iaith gyntaf.

**'ADY'** – Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**'GY'** (Gweithredu gan yr Ysgol) – Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl AAA yna mae'n darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol neu'n wahanol iddynt.

**'GY+'** (Gweithredu gan yr Ysgol +) – Pan fo athro/athrawes dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel bod ymyriadau amgen sy'n

ychwanegol at y rhai a ddarperir ar gyfer y disgybl trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu sy'n wahanol iddynt yn gallu cael eu rhoi yn eu lle.

**'Adran 106'** – caiff y cyfraniad Adran 106 ei geisio gan unrhyw un sydd â buddiant mewn adeiladu datblygiad tai, tuag at gostau darparu seilwaith cymunedol a chymdeithasol, darpariaeth addysgol, mannau agored / offer chwarae, cludiant neu ofal iechyd ar gyfer y rhai a fydd yn byw yn y cartrefi newydd.

**'CAA'** – Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

**'Disgybl â Datganiad'** – Mae gan blentyn Ddatganiad o Angen Addysgol (AAA), a adwaenir fel arall fel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), os oes gan y plentyn anawsterau dysgu sy'n golygu ei bod yn ofynnol rhoi darpariaeth addysgol arbennig i'r plentyn. Mae anhawster dysgu'n golygu bod y plentyn yn profi anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran neu fod gan y plentyn anabledd sy'n golygu bod angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant fel rheol.

**'Hysbysiad Statudol'** – Mae hysbysiad statudol yn golygu mynd ati'n ffurfiol i gyhoeddi cynnig terfynol. Dim ond os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig yn dilyn ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori y gwneir hyn. Mae hyn yn un o'r gofynion cyfreithiol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod Cynghorau'n gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Sant Baruc gael y cyfle i wneud eu barn am y cynnig hwn yn hysbys.

Bydd gweithdy ymgynghori'n cael ei gynnal gyda'r cyngor ysgol yn Ysgol Sant Baruc i gasglu eu barn am y cynnig. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y sesiwn hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff – sut y gallwch chi gael gwybod mwy a rhoi eich barn

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion yn yr ysgol a'r gymuned i ddod i'r sesiwn galw heibio lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Byddwn wastad yn gofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gan mai dim ond barn a fynegwyd yn ysgrifenedig y gallwn ei derbyn.

Bydd dyddiad a lleoliad y sesiwn galw heibio'n cael eu harddangos gan yr ysgol trwy wefan yr ysgol.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfarfodydd ar gyfer staff a chorff llywodraethu'r ysgol.

Mae'r ddogfen hon a gwybodaeth ategol bellach i'w cael ar wefan Bro Morgannwg: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Expanding-Ysgol-Sant-Baruc.aspx

Mae unrhyw ddiweddariadau i'w cael ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg hefyd.

Mae manylion dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori i'w gweld isod:

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Cyfarfod staff | 16 Ionawr 2019, 3.30pm – 4.30pm | Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, y Barri, CF62 8HT |
| Cyfarfod llywodraethwyr | 16 Ionawr 2019, 6pm – 7pm | Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, y Barri, CF62 8HT |
| Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned | 17 Ionawr 2019 8.30am – 9.30am 3pm – 4pm | Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, y Barri, CF62 8HT |
| Sesiwn ymgysylltu â disgyblion | 17 Ionawr 2019 | Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, y Barri, CF62 8HT |
| Sesiwn galw heibio ar gyfer y gymuned | 30 Ionawr 2019, 2.30pm – 6pm | Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri CF63 4RU |

**Tabl 2 – cyfarfodydd Staff, Llywodraethwyr a Rhieni**

## Mae Eich Barn Chi'n Bwysig

Bydd y cyfnod ymgynghori'n cael ei gynnal rhwng **08 Ionawr 2019 a 22 Chwefror 2019**. Gallwch ymateb i'n cynigion unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich barn chi'n bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch ei rhannu gyda ni.

Gallwch wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=154653143181

- Bod yn bresennol mewn sesiwn galw heibio a siarad gyda ni wyneb yn wyneb. Mae hon yn ffordd dda o allu cael atebion i unrhyw gwestiynau a all fod gennych am y cynigion. Byddwn yn dal i ofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond yn ysgrifenedig y gallwn dderbyn eich barn. Gallwch gysylltu â ni ar 01446 709828 hefyd i gael rhagor o wybodaeth am y cynnig.

- Cwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad ar Ehangu Ysgol Sant Baruc
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Bydd yr holl ymatebion a roddir inni'n ysgrifenedig yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn ei fod yn penderfynu cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynigion neu beidio.

Er y bydd ymatebion oddi wrth ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, ni fyddant yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o gyfnod yr hysbysiad statudol, os caiff ei gymeradwyo ar y cam nesaf, gan Gabinet y Cyngor.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad yn ystod cam nesaf y broses, os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cam hwnnw, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebiadau statudol. Caiff y dyddiadau allweddol hyn eu nodi yn Amserlen y Broses Statudol ar dudalen 25.

Sylwer y dylai'r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **22 Chwefror 2019**. Yn anffodus, ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

## Cefndir y cynnig

Ysgol gymunedol Gymraeg sy'n gwasanaethu plant 3 i 11 oed yn Ne Orllewin y Barri yw Ysgol Sant Baruc. O ran derbyniadau, mae 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp oedran gyda chyfanswm capasiti o 210 o ddisgyblion. Mae gan yr ysgol ddosbarth meithrin rhan-amser â lle i 48 hefyd.

Mae Ysgol Sant Baruc yn cynnwys prif adeilad o Oes Fictoria a bloc â dwy ystafell ddosbarth a godwyd yn y 1980au. Mae'r ysgol ar safle cyfyng iawn ar lethr heb unrhyw obaith o gynyddu'r safle'n sylweddol i gyrraedd safonau ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn defnyddio'r cyfleusterau ffreutur yn Ysgol Gynradd High Street drws nesaf gan nad oes darpariaeth arlwyo yn yr ysgol. Hefyd, mae'r ystafelloedd dosbarth yn amrywio o ran maint gyda chapasiti ar gyfer rhwng 23 a 30 o blant. Mae'r ystafelloedd dosbarth llai'n rhy fach ar gyfer nifer derbyn yr ysgol, sef 30 o blant. Nid yw'n bosibl disodli'r ysgol ag adeilad newydd yn ei lleoliad presennol oherwydd mannau awyr agored cyfyngedig.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn adeiladau addysgol ledled Cymru. Menter unigryw ar y cyd ydyw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Cafodd holl brosiectau Cyngor Bro Morgannwg a gyflawnwyd fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif eu cwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae disgwyl i'r Cyngor gael cyllid Band B gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i adeiladu'r ysgol newydd ar Lannau'r Barri.

Cyhoeddwyd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ym mis Gorffennaf 2017, ac mae'n nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair thema allweddol, a bydd y newidiadau trawsffurfiol allweddol canlynol yn ofynnol o fewn y sector addysg er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 – 2021 yn nodi cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg dros y cyfnod o bedair blynedd, yn unol â'r weledigaeth yn Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr ac Addysg yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn derbyn bod cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o Filiwn o Siaradwyr erbyn 2050 yn galw am fuddsoddi'n sylweddol yn y ddarpariaeth addysgol i ysgogi a hwyluso'r galw am addysg Gymraeg. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2017-2020 yn rhan annatod o Strategaeth Dwyieithrwydd y Cyngor. Yr amcanion yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yw:

- Ehangu ein darpariaeth Gymraeg ym myd addysg i ateb y galw cyfredol a rhagamcanol.
- Cyfleu'r cyfleoedd ar gyfer yr holl ddysgwyr.
- Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg mewn addysg, a'r cyfleoedd y mae dwyieithrwydd yn eu galluogi.
- Galluogi cyfle cyfartal i gael mynediad at y ddarpariaeth ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Trwy gyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru, sef Miliwn o Siaradwyr erbyn 2050 ac i hwyluso'r galw, mae gan gais Band B y Cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru y capasiti i gyflwyno lleoedd sylweddol sy'n gysylltiedig â chyfrwng Cymraeg ar draws yr holl sectorau ac i adlewyrchu datblygiadau tai newydd ar raddfa fawr sydd yn yr arfaeth dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bro Morgannwg 2011-2026 yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer Bro Morgannwg ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2017. Cafodd ysgol newydd ar gyfer datblygiad Glannau'r Barri ei chynnwys fel rhan o'r CDLl.

Ym mis Hydref 2007, fe ymrwymodd Consortiwm o adeiladwyr tai a oedd yn cynnwys Persimmon Homes, Taylor Wimpey a Barratt Homes i gytundeb gydag Associated British Ports a Llywodraeth Cymru ar gyfer yr hawl i ddatblygu ardal Glannau'r Barri. Ym mis Mawrth 2012 rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer rhaglen gynhwysfawr i ailddatblygu'r safle gydag amodau a Chytundeb Adran 106.

Mae'r safle'n cynnwys 48.55 hectar o dir. Bydd y datblygiad yn cynnwys:

- Adeiladu tua 1,700 o anheddau
- Mannau adwerthu newydd
- Caffis, bariau a bwytai
- Cysylltiadau trafnidiaeth newydd ag Ynys y Barri
- Cyfleusterau cymunedol

Yn ôl y sefyllfa ym mis Awst 2018, mae 621 o anheddau preifat wedi cael eu hadeiladu ac yn rhai â phobl yn byw ynddynt. Mae 104 o anheddau ychwanegol wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae 135 o gartrefi fforddiadwy wedi cael eu hadeiladu ac yn rhai â phobl yn byw ynddynt. Bydd tua 1,700 o anheddau'n cael eu hadeiladu ar y cyfan erbyn 2022.

Mae datblygiad y Glannau wedi'i leoli i'r de orllewin o ganol tref y Barri ac mae rhwng canol y dref ac Ynys y Barri.

Ar hyn o bryd mae datblygiad Glannau'r Barri'n bwydo Ysgolion Cynradd High Street a Holton ar gyfer darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, Ysgol Sant Baruc ar gyfer darpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cynradd yr Holl Saint a Sain Helen ar gyfer addysg enwadol.

## Y cynnig

Mae'r cynnig yn un i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.


Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti ysgol o leiaf 25%. Mae ysgol newydd â 420 o leoedd ar Lannau'r Barri wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Cynigir y byddai Ysgol Sant Baruc yn symud i mewn i'r adeilad hwn erbyn mis Medi 2021 i wneud lle i'r capasiti uwch. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn arwain at leoedd meithrin ychwanegol, gyda 96 o leoedd rhan-amser yn lle 48.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw'n ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol a'u bod yn adlewyrchu'r galw. Mae angen ateb y galw yn y dyfodol o du'r datblygiadau tai newydd yn y Barri, yn ogystal â'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai adeilad ysgol newydd â 420 o leoedd yn darparu ar gyfer y cynnydd rhagamcanol yn niferoedd y disgyblion o ganlyniad i'r datblygiad newydd. Byddai'r capasiti uwch hefyd yn darparu ar gyfer y cynnydd rhagamcanol mewn rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg.

## Mapiau dalgylchoedd

Ni chynigir y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i ddalgylch Ysgol Sant Barus o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae'r holl drefniadau o ran dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ei gilydd ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae adolygiad eang i fod i ddigwydd yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ynghylch trefniadau derbyn yn y dyfodol.



## Pam ydym yn cynnig gwneud y newidiadau?

### Y galw am ddarpariaeth Gymraeg

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi arwain at gynnydd mewn dysgwyr dwyieithog ac mae'n amcanu at barhau â'r duedd hon i sicrhau bod capasiti digonol dros y tymor hir. Mae Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), sydd wedi'i fwriadu i sicrhau y gellir ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir yn unol â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgeisiol i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn dod yn fwyfwy poblogaidd a bu twf sylweddol ynddi dros y 18 mlynedd ddiwethaf ers agor Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae hyn wedi bod yn amlwg yn y prosiect 'Trawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri' yn ddiweddar sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Saesneg sydd ar gael yn y Barri o 2754 i 2200 a chynnydd yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o 1151 i 1450.

Ysgol Gymraeg yn Llanilltud Fawr a agorodd ym mis Medi 2011 yw Ysgol Dewi Sant. Yn y flwyddyn gyntaf wedi iddi agor, dim ond 3 disgybl a dderbyniwyd i'r dosbarth derbyn. 7 mlynedd yn unig yn ddiweddarach, roedd goralw o ran derbyn disgyblion ym mis Medi 2018 gyda 32 o ymgeiswyr am 30 o leoedd.

### Adeiladau sy'n addas i'w diben

Mae Ysgol Sant Baruc yn cynnwys prif adeilad o Oes Fictoria a bloc â dwy ystafell ddosbarth a godwyd yn y 1980au. Er bod yr adeiladau mewn cyflwr gweddol ar y cyfan, nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn addas i'w diben o ran y canlynol;

- Mae'r ysgol ar safle cyfyng iawn ar lethr gyda mannau hamdden cyfyngedig yn yr awyr agored a dim gobaith o gynyddu'r safle'n sylweddol i gyrraedd safonau ysgolion yr 21ain Ganrif

- Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau ffreutur yn Ysgol Gynradd High Street drws nesaf gan nad oes darpariaeth arlwyo yn yr ysgol

- Hefyd, nid yw rhai ystafelloedd dosbarth yn ddigon mawr ar gyfer 30 o ddisgyblion.

Mae'r adroddiad diweddaraf gan Estyn yn nodi bod y diffyg cyfleusterau ffreutur a'r mannau hamdden annigonol yn effeithio'n negyddol ar lesiant disgyblion.

Mae trosglwyddo Ysgol Sant Baruc a chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 210 i 420 yn cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy nag agor ysgol ychwanegol â 210 o leoedd i wasanaethu Datblygiad Glannau'r Barri. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'r adeilad presennol, megis y diffyg cyfleusterau ffreutur. Byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad modern o ansawdd da a fyddai'n gallu bod o gymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys.

Bydd y cynigion yn sicrhau bod adeiladau newydd yn cyrraedd safonau adeiladau modern i leihau costau cylchol ac allyriadau carbon. Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).

## Datblygiad Tai Newydd

Cynnig a gyflwynwyd fel rhan o gais Band B Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) y Cyngor oedd sefydlu ysgol gynradd â 420 o leoedd ar ddatblygiad Glannau'r Barri er mwyn ateb y galw yn awr ac yn y dyfodol am leoedd mewn ysgolion.

Mae datblygiad y Glannau wedi'i leoli i'r de orllewin o ganol tref y Barri a rhwng canol y dref ac Ynys y Barri. Bydd tua 1,700 o anheddau'n cael eu hadeiladu ar y cyfan erbyn 2022. Rhagfynegir y bydd Datblygiad Glannau'r Barri ar y cyfan yn dwyn tua 170 o ddisgyblion meithrin, 473 o ddisgyblion cynradd a 422 o ddisgyblion uwchradd. Caiff nifer rhagamcanol y disgyblion sy'n deillio o ddatblygiad ei gyfrifo gan ddefnyddio fformwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad ynghylch deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae cyfanswm o 756 o unedau wedi cael eu hadeiladu ac yn rhai y mae pobl yn byw ynddynt hyd yma gyda phlant wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal.

Ar hyn o bryd mae datblygiad Glannau'r Barri'n bwydo Ysgolion Cynradd High Street a Holton ar gyfer darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, Ysgol Sant Baruc ar gyfer darpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cynradd yr Holl Saint a Sain Helen ar gyfer addysg enwadol. Ni chynigir unrhyw newid i hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae 900 dai ar ôl i'w hadeiladu a'u cwblhau erbyn 2022 ar ddatblygiad y Glannau nad ydynt yn cynnwys fflatiau a rhandai ag 1 ystafell wely gan na thybir y bydd plant yn byw yn y rhain. Rhagfynegir y bydd y 900 o dai sy'n weddill yn rhoi cyfanswm pellach o 90 o ddisgyblion meithrin, 250 o ddisgyblion cynradd a 223 o ddisgyblion uwchradd. O'r 250 o blant o oedran cynradd a fydd yn deillio o ddatblygiad y Glannau yn y Barri, byddai ar 48 (19%) angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar y galw yn yr ardal ar hyn o bryd.

# Gwybodaeth am yr ysgol

## Ysgol Sant Baruc

| Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Math o ysgol** | **Categori iaith** | **Nifer derbyn** | **Capasiti'r ysgol** | **Nifer ar y gofrestr** | **Ystod oedran** | **Nifer y lleoedd meithrin rhan-amser** |
| Ysgol Sant Baruc | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 30 | 210 | 194 | 3 - 11 | 48 |

**Tabl 3 – Nifer ar y Gofrestr yn 2018**

## Y galw am leoedd mewn ysgolion

Mae'r tabl canlynol yn darparu nifer ar y gofrestr o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr bob blwyddyn a data rhagamcanol o ran y nifer ar y gofrestr.

**Data diweddar ynghylch nifer ar y gofrestr a data rhagamcanol ynghylch nifer ar y gofrestr yn CYBLD mis Ionawr**

| Ysgol | Capasiti'r ysgol ar hyn o bryd | Ionawr 2014 | Ionawr 2015 | Ionawr 2016 | Ionawr 2017 | Ionawr 2018 | Rhagamcaniad 2018/19 | Rhagamcaniad 2019/20 | Rhagamcaniadau 2020/21 | Rhagamcaniadau 2021/22 | Rhagamcaniadau 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Baruc | 210 | 212 | 194 | 188 | 188 | 186 | 196 | 204 | 210 | 219 | 218 |

**Tabl 4 – Data diweddar ynghylch nifer ar y gofrestr a data rhagamcanol ynghylch nifer ar y gofrestr yn CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) mis Ionawr**

Mae'r tabl isod yn nodi'r niferoedd cyfredol ar y gofrestr ar draws yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y Barri.

## Ysgolion Saesneg

| | | | Nifer ar y Gofrestr yn ôl grwpiau blwyddyn yn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg y Barri | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | ND | Capasiti'r Ysgol | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm Niferoedd ar y Gofrestr | Cyfanswm Capasiti Gwag |
| Yr Holl Saint | 30 | 210 | 30 | 28 | 28 | 30 | 30 | 30 | 30 | 206 | 4 |
| Ynys y Barri | 30 | 210 | 30 | 30 | 28 | 30 | 30 | 30 | 30 | 208 | 2 |
| Tregatwg | 60 | 420 | 60 | 58 | 58 | 59 | 59 | 59 | 55 | 409 | 11 |
| Colcot | 45 | 315 | 32 | 44 | 39 | 45 | 45 | 40 | 48 | 293 | 22 |
| Gwenfo | 30 | 210 | 31 | 30 | 28 | 29 | 28 | 30 | 29 | 205 | 5 |
| Gladstone | 60 | 420 | 46 | 58 | 61 | 60 | 61 | 57 | 54 | 397 | 23 |
| High Street | 30 | 210 | 28 | 30 | 30 | 31 | 31 | 31 | 32 | 213 | 0 |
| Holton | 60 | 420 | 41 | 58 | 55 | 57 | 59 | 60 | 59 | 389 | 31 |
| Parc Jenner | 30 | 210 | 28 | 22 | 30 | 35 | 43 | 26 | 28 | 212 | 0 |
| Oakfield | 30 | 210 | 23 | 20 | 30 | 30 | 28 | 19 | 20 | 170 | 40 |
| Palmerston | 30 | 210 | 30 | 30 | 29 | 29 | 31 | 29 | 27 | 205 | 5 |
| Romilly | 90 | 630 | 90 | 89 | 89 | 89 | 89 | 85 | 90 | 621 | 9 |
| Sain Helen | 44 | 308 | 29 | 37 | 35 | 46 | 49 | 45 | 42 | 283 | 25 |
| Cyfanswm | 569 | 3983 | 498 | 534 | 540 | 570 | 583 | 541 | 545 | 3811 | 177 |
| Lleoedd sydd ar gael mewn grwpiau blwyddyn | | | 71 | 35 | 29 | -1 | -14 | 28 | 24 | | |

**Tabl 5 - Nifer ar y Gofrestr yn ôl grwpiau blwyddyn yn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg y Barri**

## Ysgolion Cymraeg

| | | | Nifer ar y Gofrestr yn ôl grwpiau blwyddyn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y Barri | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | ND | Capasiti'r Ysgol | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm Niferoedd ar y Gofrestr | Cyfanswm Capasiti Gwag |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 30 | 210 | 29 | 28 | 30 | 28 | 30 | 28 | 33 | 206 | 4 |
| Ysgol Sant Baruc | 30 | 210 | 29 | 29 | 23 | 28 | 26 | 30 | 29 | 194 | 16 |
| Ysgol Sant Curig | 60 | 420 | 50 | 56 | 55 | 53 | 52 | 51 | 54 | 371 | 49 |
| Ysgol Gwaun y Nant | 60 | 270 | 22 | 41 | 34 | 28 | 35 | 25 | 24 | 209 | 61 |
| Cyfanswm | 180 | 1110 | 130 | 154 | 142 | 137 | 143 | 134 | 140 | 980 | 130 |
| Lleoedd sydd ar gael mewn grwpiau blwyddyn | | | 50 | 26 | 38 | 43 | 37 | 46 | 40 | | |

**Tabl 6 - Nifer ar y Gofrestr yn ôl grwpiau blwyddyn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y Barri**

Yn ôl y sefyllfa ym mis Tachwedd 2018, mae 130 o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a 177 o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar gael yn y Barri. Mae Ysgol Gwaun y Nant ar hyn o bryd yn gyfrifol am 61 o'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nwyrain y Barri a thros 2 filltir o ddatblygiad y Glannau.

Yr ysgol agosaf nesaf ar gyfer unrhyw blant sy'n weddill ac ar gyfer plant sy'n symud i mewn i dde orllewin y Barri yw Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; fodd bynnag nifer fach iawn o leoedd sydd ar gael yn y cyfnod cynradd. Ysgol Gwaun y Nant yw'r ysgol agosaf nesaf â chapasiti ar gael; fodd bynnag byddai dibynnu ar y lleoedd gwag hyn yn arwain at gostau cludiant sylweddol gan fod datblygiad y Glannau dros y terfyn cymhwyso o 2 filltir i Ysgol Gwaun y Nant at ddibenion cludiant am ddim i'r ysgol. Byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu cludiant i Ysgol Gwaun y Nant ar gyfer y rhai sy'n byw yn natblygiad y Glannau pan fo'r lleoedd gwag yn cael eu defnyddio yn Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Sant Curig.

Mae gan Ysgol Gwaun y Nant nifer derbyn cyfredol o 60 a chapasiti ysgol o 270 o ganlyniad i ehangu'r ysgol bob yn dipyn o 2015 ymlaen i ateb y galw. Oherwydd lleoedd gwag yn y tymor byr mae'r ysgol wedi manteisio ar y cyfle i gynnig lle ar ei safle i gael ei ddefnyddio ar gyfer cymorth ychwanegol i'r gymuned at ddibenion megis gofal cofleidiol i ddisgyblion a defnydd cymunedol. Ar hyn o bryd mae Canolfan Deuluol Gibbonsdown yn darparu gofal cofleidiol ar safle'r ysgol ar gyfer rhieni plant sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn yr ysgol yn y bore a'r prynhawn. Mae clwb ar ôl ysgol preifat yn rhedeg ar safle'r ysgol hefyd ac yn darparu trefniadau gofal ar ôl ysgol ar gyfer rhieni. Yn y gorffennol mae'r ysgol wedi darparu Cylch Ti a Fi ar gyfer rhieni/gofalwyr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y defnydd o gapasiti gwag yn yr ysgol a pha mor bwysig fu hyn i'r gymuned ar y cyfan. O ganlyniad, bydd adolygiad yn y dyfodol o gapasiti a nifer derbyn yr ysgol yn cael ei gynnal gyda'r corff llywodraethu i ystyried y lle a ddyrennir ar gyfer defnyddiau eraill.

Felly, er mwyn sicrhau perthynas effeithlon rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Barri a'r galw am y lleoedd hynny, mae angen capasiti ychwanegol yn ne orllewin y Barri.

Rhagwelir y bydd diffyg bach o ran lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg erbyn 2022. Gellir ateb y galw hwn trwy ailasesu'r capasiti yn ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf cafwyd gwared ar gapasiti yn ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner trwy ailddyrannu defnydd o ystafelloedd. Yn flaenorol roedd gan yr ysgolion leoedd gwag a allai fod ar gael i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion Saesneg. Mae'r ddwy ysgol hon o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri. Wrth i'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg gynyddu, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfatebol yn y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ers

1998, gwelwyd gostyngiad o 5.8% yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg a chynnydd o 6.7% yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri.

## Perfformiad cyfredol

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod y dysgu a'r addysgu o ansawdd da a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad i fonitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi'r broses gwella ysgolion.

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Un o gyrff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei chyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru (CACCDC) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio'r holl ysgolion ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

Ym mis Medi 2017 cyflwynodd Estyn Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd ar gyfer yr holl ysgolion ledled Cymru. Cafodd Ysgol Sant Baruc ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2018. Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa sy'n cynnwys pedair barn:

| Barn | Yr hyn y mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Rhagorol | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| Da | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| Digonol | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| Anfoddhaol | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

**Tabl 7 – Meini Prawf Arolygu Estyn**

### Adroddiad Estyn (Mai 2018)

### Crynodeb

Mae gan ddisgyblion agweddau eithriadol o dda at ddysgu. Maent yn dangos brwdfrydedd a gwir fwynhad yn eu gwaith. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae bron pob un disgybl yn siarad Cymraeg i safon uchel. O'u mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud o leiaf gynnydd cryf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae ethos gofalgar a chynhaliol yr ysgol yn sicrhau awyrgylch dysgu effeithiol. Ategir hyn gyda pharch a pherthynas waith gadarnhaol iawn rhwng oedolion a disgyblion sy'n arwain at ymddygiad da iawn tu fewn a thu allan i wersi. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar

gyfer eu hunain, staff a'r disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd safonau uchel o fewn awyrgylch cartrefol a Chymreig ei naws.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Rhagorol |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

Tabl 8 – Canlyniadau Arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Sant Baruc

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 Sicrhau her briodol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wrth iddynt weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu

A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Mae'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Sant Baruc i'w weld yma:
https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Ysgol%20Sant%20Baruc%20en.pdf

## System Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru system newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion; cafodd hon ei diwygio ym mis Medi 2017. Mae'r system gategoreiddio'n ystyried safonau pob ysgol ochr yn ochr â gallu'r ysgol i wella er mwyn pennu lefel y gefnogaeth y mae ei hangen. Wedyn mae sefydliadau megis CACCDC a'r gwasanaeth gwella ysgolion yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i adnabod, darparu a/neu froceru unrhyw gefnogaeth y mae ei hangen ar gyfer gwelliant pellach.

Caiff y system categoreiddio ysgolion ei disgrifio isod:

| Categori | Yr hyn y mae'r categori'n ei olygu |
|---|---|
| Gwyrdd | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. |
| Melyn | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddi eu gwella. |
| Oren | Ysgol y mae angen ei gwella ac y mae angen cymorth arni i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach. |
| Coch | Ysgol y mae angen ei gwella fwyaf ac a fydd yn cael cefnogaeth ddwys ar unwaith. |

Tabl 9 – Meini Prawf Llywodraeth Cymru

Er mwyn pennu'r categori cefnogaeth a gaiff ei egluro yn y tabl uchod, gosodir ysgolion mewn un o'r pedwar grŵp ar gyfer gallu i ddwyn gwelliant (A-D) gydag A yn golygu'r gallu uchaf i wella. Nid yw'r system ddiwygiedig ar gyfer categoreiddio ysgolion a gyflwynwyd ym mis Medi 2017 yn defnyddio gradd safonau.

| Ysgol Sant Baruc – Categorïau Safonau a Gwella | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Cyhoeddi | Gradd Safonau | Gallu i Wella | Categori ar y Cyfan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2018 | Amherthnasol | B | Melyn |
| Ionawr 2017 | 1 | B | Melyn |
| Ionawr 2016 | 1 | B | Melyn |
| Ionawr 2015 | 2 | C | Ambr |

**Tabl 10 – Categorïau Safonau a Gwella - Ionawr 2015 – Ionawr 2018**

O'r 44 o ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg, mae 24 wedi'u categoreiddio'n wyrdd, 18 yn felyn a 2 yn ambr.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun categoreiddio, gweler canllawiau Llywodraeth Cymru i rieni ynghylch y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion: **http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-cy.pdf**

## Y safonau bwriadedig ar ddeilliannau addysg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021. Byddai'r ysgol yn symud i mewn i adeilad ysgol newydd i wneud lle i'r capasiti uwch hwn.

### Safonau: (Da)

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:
- Mae sgiliau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn ystyried
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn naturiol yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth gref am rif, siâp, mesur a thrin data'n fedrus wrth ddatrys problemau
- Mae sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Fodd bynnag, ar y cyfan nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u sgiliau TGCh i lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gan y bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn arwain at adleoli'r ysgol i adeilad newydd ar Lannau'r Barri. Mae'r amgylchedd dysgu a'r seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau a mannau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn elfennau allweddol o ran cefnogi athrawon a dysgwyr. Adlewyrchir hyn yn nodau'r cwricwlwm cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ac uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif gyda mynediad llawn at dechnolegau'r 21$^{ain}$ Ganrif.

Lluniwyd y FfCD er mwyn sicrhau bod cymhwysedd a sgiliau llythrennedd digidol yn cael eu datblygu o oedran cynnar. "Cymhwysedd digidol yw'r enw ar set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n caniatáu i rywun ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. Mae'n set hanfodol o wybodaeth i ddysgwyr fod yn wybodus, yn alluog ac yn llwyddiannus yn y gymdeithas sydd ohoni". Bydd angen i syniadau ar gyfer tasgau yn yr ystafell ddosbarth "newid a datblygu i adlewyrchu technolegau newydd a'r profiad a'r arbenigedd cynyddol ym maes dysgu digidol". O fis Medi 2018 mae disgwyl i ysgolion:
- Feddu ar weledigaeth glir ar gyfer cyflawni cymhwysedd digidol yn yr ystafell ddosbarth ar draws y cwricwlwm
- Bod wedi pennu cyfrifoldebau staff o ran cynnwys cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm

- Adolygu gofynion o ran caledwedd a meddalwedd, yn ogystal ag anghenion dysgu proffesiynol staff, a hynny'n barhaus
- Bod wrthi'n mapio cymhwysedd digidol yn ôl adran/blwyddyn yn unol â'r cwricwlwm cyfredol
- Gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol, bod wedi cynllunio a bod wrthi'n cyflawni datblygiad proffesiynol staff mewn perthynas â chymhwysedd digidol.

Mae'r canllawiau ynghylch y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 yn hysbysu y bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar gael o fis Ionawr 2020. Bydd disgwyliadau digidol wedi'u sefydlu fel rhan annatod o'r cwricwlwm newydd a bydd lleoliadau ac ysgolion wrthi'n:

- Cymharu ffyrdd cyfredol o roi'r Fframwaith ar waith gyda'r cwricwlwm newydd
- Ymgorffori cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm
- Rhannu arfer da o fewn yr ysgol a thu hwnt
- Ymgysylltu â chyngor yr ysgol a llais y disgybl
- Gwerthuso sut mae'r ymagwedd gyfredol tuag at gymhwysedd digidol yn ffitio â'r cwricwlwm newydd.

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd lleoliadau ac ysgolion yn cyflawni cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm. Byddant:

- wedi ymgorffori cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm
- yn parhau i addasu ymagweddau cymhwysedd digidol cyfredol ar gyfer y cwricwlwm newydd
- yn parhau i adolygu a mireinio'u hymagwedd tuag at gymhwysedd digidol.

Felly mae darparu'r adnoddau a'r technolegau priodol i sicrhau ein bod yn cynorthwyo dysgwyr i gyflawni amcanion y fframwaith yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adeiladau ysgol newydd fel rhan o'n strategaeth ar gyfer Band B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

### Lles ac Agweddau at Ddysgu: (Rhagorol)

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae gan bron pob un disgybl agwedd eithriadol o dda at ddysgu, gyda'r agweddau hyn wedi'u sefydlu'n gadarn ar draws yr ysgol.
- Erbyn cyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn ymateb yn ymestynnol a chyda meddylgarwch i amrywiaeth o gwestiynau heriol gan oedolion
- Mae bron pob un disgybl yn falch iawn eu bod yn siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r iaith i safon uchel iawn tu fewn a thu allan i'r ysgol
- Mae ymddygiad disgyblion mewn gwersi, o gwmpas yr ysgol a thu allan i'r ysgol yn ardderchog. Er enghraifft, oherwydd diffyg cyfleusterau ar dir yr ysgol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gorfod cerdded i'r ysgol Saesneg gyfagos i gael cinio
- Nodwedd ragorol ar ymagwedd y disgyblion yw'r ffordd y maent yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch ac aeddfedrwydd
- Mae bron pob un yn barod i sgwrsio a thrafod yn hyderus a chyda hiwmor priodol mewn Cymraeg cywir a graenus

O ganlyniad i'r cynnig, bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i adeilad newydd ar safle Glannau'r Barri. Byddai gan yr adeilad newydd gyfleusterau ffreutur integredig a fyddai'n rhoi mwy o amser i'r disgyblion fwynhau eu cinio heb yr angen i deithio i ysgol gyfagos. Byddai gan yr ysgol newydd ardaloedd chwarae caled a meddal hefyd i wella lles disgyblion.

### Addysgu a Phrofiadau Dysgu: (Da)

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoes sy'n datblygu medrau disgyblion a'u hawydd i ddysgu yn bwrpasol
- Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu'r cwricwlwm i gynnwys gweithgareddau 'Bwrlwm Baruc' yn wythnosol
- Mae'r athrawon yn modelu iaith o safon uchel yn gyson ac yn gwirio camgymeriadau ieithyddol mewn modd sensitif a chynhaliol
- Un o gryfderau'r addysgu yw'r berthynas waith ofalgar sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion, lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus i wneud camgymeriadau ac i ddyfalbarhau i'w goresgyn

## Cyflwr adeiladau a chyfleusterau'r ysgol

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg weledigaeth i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro i gefnogi eu dysgu. Mae arolwg o gyflwr adeiladau'n cynnwys asesiad gweledol o bob rhan ohonynt sy'n agored i adnabod diffygion sylweddol ac eitemau sydd wedi mynd â'u pen iddynt. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolygon o gyflwr adeiladau'r holl ysgolion yn ystod 2010 a barnwyd fod cyflwr yr ysgol fel a ganlyn.

| Ysgol | Math o ysgol | Gradd cyflwr | Gradd tirwedd |
|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Baruc | Cymunedol | B | D |

Tabl 11 – 2010 Arolwg o Gyflwr Adeiladau Ysgolion gan Lywodraeth Cymru

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf y Cyngor o gyflwr yr ysgol yn 2018.

| Ysgol | Math o ysgol | Cyflwr adeilad yr ysgol | Addasrwydd adeilad yr ysgol | Cost atgyweiriadau a nodwyd |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Baruc | Cymunedol | Gwael | Boddhaol | £80,800 |

Tabl 12 – 2018 Arolwg o Gyflwr Adeiladau'r Ysgol gan y Cyngor

Bydd adeilad newydd arfaethedig yr ysgol yn darparu:

- Amgylchedd dysgu o ansawdd uchel sy'n gyforiog o Dechnoleg Gwybodaeth ar gyfer disgyblion sy'n diwallu anghenion o ran y cwricwlwm addysg yn yr 21ain Ganrif
- Mynediad dirwystr rhwng pob ardal fewnol ar gyfer plant a staff gan y bydd yr ysgol newydd wedi'i chynnwys mewn un adeilad
- Gwell trefniadau diogelu a diogelwch ar y safle ar gyfer disgyblion a staff
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored gwell ar gyfer defnydd gan ddisgyblion a'r gymuned
- Mynediad llawn ar gyfer y gymuned gyfan gyda mynediad llawn at ardaloedd mewnol ac allanol ar gyfer pobl anabl.

## Gofal, Cymorth ac Arweiniad: (Da)

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Un o gryfderau'r ysgol yw'r flaenoriaeth uchel a roddir i les pob disgybl
- Mae gan yr ysgol ethos gofalgar, cynhwysol a hapus lle anogir pob disgybl i gyrraedd y safonau uchaf posibl mewn awyrgylch dysgu diogel a chartrefol
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol yn effeithiol iawn

- Mae’r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau o fewn yr ysgol ac yn y gymuned leol, er enghraifft wrth ganu mewn cartref henoed lleol

### Arweinyddiaeth a Rheolaeth: (Da)

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae’r pennaeth yn darparu arweiniad strategol a chlir i waith yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur sydd yn canolbwyntio’n gadarn ar ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o’r safon uchaf i bob disgybl o fewn awyrgylch gofalgar a theuluol
- Mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac ethos o gydweithio agos mewn amgylchedd Cymreig yn bodoli o fewn yr ysgol
- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn am gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella
- Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth gadarn am berfformiad a gweithdrefnau’r ysgol. Maent yn gefnogol iawn ac yn cydweithio’n effeithiol ag arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir
- Er gwaethaf cyfyngiadau ag adeiladau’r ysgol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o bob rhan o dir yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer darparu cinio mewn ysgol arall yn drwyadl a diogel. Er hyn, mae’r trefniadau’n rhwystro disgyblion rhag gwneud y defnydd gorau o’u hamser cinio ar adegau

Bydd adeilad ysgol newydd yn cael gwared ar y cyfyngiadau gydag adeiladau a thir yr ysgol a nodir uchod. Hefyd, bydd yr ysgol newydd yn cael gwared ar yr angen i’r disgyblion ddibynnu ar ysgol arall ar gyfer darparu cinio. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud y defnydd gorau o’u hamser cinio.

## Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Bydd y cynnig yn arwain at 210 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Fe gymer nifer o flynyddoedd i’r ysgol gyrraedd ei chapasiti llawn a bydd nifer y disgyblion yn y dosbarth derbyn yn newid o fis Medi 2021. Yn ystod yr amser hwn, bydd lle ychwanegol yn yr ysgol a allai gael ei ddefnyddio gan y gymuned i gefnogi a hyrwyddo’r Gymraeg o fewn y gymuned.

Byddai’r ysgol wrth galon y gymuned a byddai’n hybu addysg Gymraeg, gan wella hygyrchedd y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae Cymraeg i Oedolion yn cael ei hyrwyddo ledled Bro Morgannwg hefyd gydag ystod eang o gyrsiau ar gael o lefel dechreuwyr i lefel hyfedredd.

Mae Rhaglen y Cyngor ar gyfer Buddsoddi mewn Ysgolion yn adlewyrchu ymrwymiadau’r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), sy’n amcanu at sicrhau y gellir ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir, yn unol â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgeisiol i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

## Tir ac Adeiladau

Mae adeilad presennol Ysgol Sant Baruc wedi’i leoli ar safle ag arwynebedd o oddeutu 3,000$m^2$ yn agos at High Street yn y Barri. Mae’r safle yn union drws nesaf i Ysgol Gynradd High Street, ysgol gymunedol 3-11 cyfrwng Saesneg.

Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ynghylch defnyddio'r safle a'r adeiladau yn y dyfodol. Os caiff y cynigion a nodir yn y ddogfen eu rhoi ar waith, byddai'r holl opsiynau'n cael eu hystyried, gan gynnwys dynodi'r safle fel un nad oes mo'i angen mwyach neu archwilio defnyddiau addysgol eraill. Bydd unrhyw waith i ddatblygu'r safle yn y dyfodol yn cael ei reoli yn unol â'r polisi perthnasol gan y Cyngor a'i rwymedigaethau statudol ac ymddiriedol.

Mae gan yr adeilad presennol arwynebedd mewnol o 919m$^2$. Mae hyn yn is na'r arwynebedd gros a nodir ym Mwletin Adeiladu 99: Fframwaith Adeiladu ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd, sef 1286m$^2$. Byddai'r adeilad newydd yn ateb gofynion Bwletin Adeiladu 99.

Nid oes gan Ysgol Sant Baruc fynediad at ei chyfleusterau ffreutur ei hun oherwydd y cyfyngiadau ar y safle. Caiff disgyblion eu hebrwng i Ysgol Gynradd High Street drws nesaf yn ystod amser cinio. Nodwyd hyn gan Estyn yn yr arolygiad diweddar, a hwythau'n hysbysu nad yw disgyblion yn gallu gwneud y gorau o'u hegwyl cinio. Ysgol Sant Baruc yw'r unig ysgol ym Mro Morgannwg heb ei chyfleusterau ffreutur ei hun.

## Sut fyddai'r cynnig yn effeithio ar ysgolion eraill?

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol gan na chynigir unrhyw newid i'r dalgylch presennol. Ni fyddai'n ofynnol bod Ysgol Gynradd High Street yn rhannu cyfleusterau na mynediad gydag Ysgol Sant Baruc mwyach gan wneud cyfraniad cadarnhaol at leihau tagfeydd traffig ar y ffyrdd yn yr ardal honno.

## Newidiadau i Ddalgylchoedd

Ni fyddai unrhyw newid i ddalgylch presennol Ysgol Sant Baruc o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'r cynnydd mewn capasiti yn ofynnol i ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n tyfu o fewn y dalgylch, yn ogystal â'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

## Sut fyddai'r cynigion yn effeithio ar y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Nid oes canolfan adnoddau arbenigol (CAA) yn sownd yn yr ysgol; mae'n rhoi cymorth arbenigol i blant ag anghenion dynodedig mewn lleoliad cynhwysol o fewn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas waith dda ag Ysgol Y Deri, Ysgol Arbennig y Cyngor. Mae aelod o staff ar secondiad ar hyn o bryd yn Ysgol Y Deri. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar hyn.

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion disgyblion presennol.

| *2017* | | *Ysgol Sant Baruc* | *ALl* | *Cymru* |
|---|---|---|---|---|
| Canran o'r Disgyblion ADY | Gweithredu gan yr Ysgol | 13.3% | 8.7% | 14.2% |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 4.4% | 5.2% | 10.4% |
| | Disgyblion â Datganiad | 0% | 0.4% | 2.4% |

**Tabl 13 – Amlinelliad o ADY ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol yn CYBLD Ionawr 2017**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm pwrpasol ac wedi'i dargedu sy'n ymateb i alluoedd y plentyn unigol ac yn sicrhau bod yr holl blant y mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes o fewn y cwricwlwm.

## Beth yw manteision y cynigion hyn?

Byddai ehangu'r ysgol ac adleoli i adeilad ysgol newydd yn;

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach gan ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy o ran disgyblion.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Cefnogi'r amcanion yng Nghynllun Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2017-2020.
- Cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

## Beth yw anfanteision posibl y cynigion hyn?

- Gallai'r broses o bontio i'r capasiti uwch darfu ar reoli staff ac adnoddau.
- Bydd rhai disgyblion sy'n byw yn nes at yr ysgol bresennol yn gorfod teithio ymhellach. Efallai y bydd costau uwch yn gysylltiedig â hyn er bod yr ysgol o fewn un filltir i'r safle presennol.
- Mae potensial i'r cynnig darfu ar ddisgyblion a staff wrth iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd.

## Cynllun pontio os caiff y cynigion eu cymeradwyo

Mae cynigion y Cyngor yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr yn symud i safle newydd yr ysgol erbyn mis Medi 2021. Byddai cynllun graddol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y capasiti uwch gyda'r nifer derbyn yn cynyddu i 60 ar gyfer y disgyblion a fydd yn ymuno â'r dosbarth derbyn yn 2021/22. Ni fydd y capasiti'n cyrraedd 420 tan 2028/29.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion

Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid yn ôl cyfradd o 65% ar gyfer y cynnig dan Fand B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Bydd

gweddill y cyllid ar gyfer adeilad newydd yr ysgol yn deillio o gytundeb Adran 106 gyda'r consortiwm o adeiladwyr tai sy'n datblygu ardal Glannau'r Barri.

Fel rhan o'r cytundeb Adran 106, byddai'r broses adeiladu'n cael ei chyflawni gan y Consortiwm o adeiladwyr tai sy'n cynnwys Persimmon Homes, Taylor Wimpey a Barratt Homes. Bydd y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r consortiwm i sicrhau bod yr ysgol yn cyrraedd safonau Bro Morgannwg.

## Dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried

### Agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd â lle i 210 o ddisgyblion ar safle Glannau'r Barri

Byddai Ysgol Sant Baruc yn aros fel ag y mae a byddai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor ar safle Glannau'r Barri.

Cafodd y model hwn ei nodi fel un nad yw'n opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r problemau presennol gyda safle Ysgol Sant Baruc
- Byddai creu ysgol gynradd newydd yn arwain at fwy o straen ar gyllid ysgolion gyda gorbenion ychwanegol yn gysylltiedig ag ysgol ychwanegol
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif yn Ysgol Sant Baruc.

### Ehangu Ysgol Gynradd High Street

Byddai Ysgol Gynradd High Street yn cynyddu o 210 o leoedd i 420 o leoedd ac yn symud i'r adeilad newydd ar safle Glannau'r Barri.

Cafodd y model hwn ei nodi fel un nad yw'n opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r problemau presennol gyda safle Ysgol Sant Baruc. Mae digon o le yn Ysgol Gynradd High Street fel a nodir ym Mwletin Adeiladu 99: Fframwaith ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd
- Byddai hyn yn groes i'r duedd o ran bod rhieni'n gynyddol yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg
- Mae digon o gapasiti cyfrwng Saesneg i ateb y galw a ragwelir
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn helpu Bro Morgannwg i gyflawni'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 ac nid yw'n cyfrannu at strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

### Cynnal y sefyllfa bresennol

Cafodd y model hwn ei nodi fel un nad yw'n opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r problemau presennol gyda safle Ysgol Sant Baruc
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn darparu amgylcheddau dysgu'r 21ain ganrif yn Ysgol Sant Baruc

- Ni fyddai unrhyw leoedd ychwanegol mewn ysgolion i dderbyn y disgyblion ychwanegol o ganlyniad i ddatblygiad Glannau'r Barri

- Ni fyddai unrhyw leoedd ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i ateb y galw a ragwelir.

## Adolygu trefniadau o ran dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ei gilydd

Mae'r holl drefniadau o ran dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ei gilydd ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae adolygiad eang i fod i ddigwydd yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ynghylch trefniadau derbyn yn y dyfodol.

## Cyllid – buddsoddi cyfalaf

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig hwn, bydd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Sant Baruc. Bydd y Cyngor yn rheoli'r broses a bydd corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion Ysgol Sant Baruc yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r gwaith adeiladu hefyd.

Amcangyfrifir mai £7.417 miliwn yw cyfanswm y cyllid cyfalaf a fydd yn ofynnol i adeiladu ysgol newydd, gam gynnwys gosod gwasanaethau cyfleustodau a darpariaeth priffyrdd. Disgwylir i'r Cyngor gael £4.821 miliwn mewn cyllid cyfatebol Band B gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Ysgolion yr $21^{ain}$ Ganrif ar gyfer y prosiect hwn.

## Cyllid – costau rhedeg

Bydd angen cyllid refeniw ychwanegol i gwrdd â chostau gweithredol yr ysgol newydd. Bwriedir cwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r niferoedd uwch o ddisgyblion trwy'r fformwla cyllido ysgolion sy'n dyrannu'r mwyafrif o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd y disgyblion.

## Adnoddau Dynol

Ni ragwelir y byddai unrhyw effeithiau anffafriol i staff gan y byddent yn syml yn symud i adeilad newydd ar eu contractau presennol. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai niferoedd disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Os bydd y symudiad i safle newydd ar gyfer yr ysgol yn digwydd, bydd angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer y niferoedd disgyblion ychwanegol o fis Medi 2021. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r staff yn yr ysgol yn llawn gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisïau recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnodda Dynol yn cydweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir yn digwydd gyda'r holl gyflogeion ynghylch pob mater sy'n ymwneud â newid yn lleoliad eu gweithle.

## Trafnidiaeth

Mae goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fydd yn ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith.

## Trefniadau teithio gan ddysgwyr

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer plant oed meithrin ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Ysgol ar gludiant ar gyfer plant i ac o ysgolion.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf.[1]

*"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*[2]

Felly byddai gan unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Sant Baruc ar y dyddiad trosglwyddo i'r safle newydd sy'n byw fwy na 2 filltir o safle newydd yr ysgol hawl i gludiant am ddim i'r ysgol. Ni fyddai gan unrhyw ddisgyblion nad ydynt yn byw 2 filltir o'r ysgol mwyach o ganlyniad i adleoli i'r safle newydd hawl mwyach i gludiant am ddim i'r ysgol.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori.

## Ystyried yr effaith ar y gymuned

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant wrth gynnig addysg i fwy o ddisgyblion. Byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.
Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

---

[1] Polisi Ar Gyfer Darparu Cludiant O'r Cartref I'r Ysgol (Diwygiwyd ym mis Chwefror 2010)

[2] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Byddai'r cynnig yn rhoi dull cyson o 3-11 oed fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a'r gymuned yn parhau gyda'r cynnig.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Sant Baruc yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd.

Gellir gweld yr Asesiad Effaith Cymunedol llawn trwy'r ddolen ganlynol:
**https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Expanding-Ysgol-Sant-Baruc.aspx**

## Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol

| **Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol** | |
|---|---|
| **Camau** | **Disgrifiad** |
| **Cam 1: Datblygu cynnig** | Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi pryd y mae'n ofynnol dilyn y weithdrefn statudol. |
| **Cam 2: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Cabinet y Cyngor yn ystyried y cynnig a chymeradwyaeth i ymgynghori. |
| **Cam 3: Ymgynghori** | Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhaid i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Rhaid i randdeiliaid a enwir yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu trwy lythyr/e-bost. |
| **Cam 4: Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad** | Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ystyried a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried. |
| **Cam 5: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. |
| **Cam 6: Hysbysiad statudol** | Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ac fel a nodir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |
| **Cam 7: Cyfnod gwrthwynebu** | Mae gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig y cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a chael eu hanfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad. |
| **Cam 8: Adroddiad gwrthwynebu** | Dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law |

| | |
|---|---|
| | **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). |
| **Cam 9: Ystyriaeth gan y Cabinet** | Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu er mwyn penderfynu'n derfynol ar y cynnig. |
| **Cam 10: Llythyr penderfyniad** | Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd adroddiad gwrthwynebu'n cael ei roi i randdeiliaid. |

Tabl 14 – Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol

## Dyddiadau allweddol

Bydd adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei goladu a'i grynhoi ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefannau'r ysgol a'r Cyngor. Gellir cael copïau hefyd ar gais trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae camau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd drwyddynt cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Caiff y camau hyn eu nodi isod:

| Y Broses Statudol | Graddfa Amser |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori | **8 Ionawr 2019** |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno barn | **22 Chwefror 2019** |
| Adroddiad ymgynghori'n cael ei ystyried gan y Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor | **1 Ebrill 2019** |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet, cyhoeddi hysbysiad statudol gan wahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod y cyfnod hwnnw | **29 Ebrill 2019** |
| Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol | **24 Mai 2019** |
| Penderfyniad gan y Cabinet gydag adroddiad gwrthwynebu. | **Gorffennaf 2019** |
| Hysbysu ynghylch y penderfyniad | **Gorffennaf 2019** |
| Capasiti uwch i gael ei gyflwyno o | **Medi 2021** |

Tabl 15 – Amserlen ar gyfer ymgynghori

**Gallai'r amserlen arfaethedig newid**

## Cyfnod ymgynghori

**Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar ddydd Mawrth 8 Ionawr 2019 ac yn dod i ben ar ddydd Gwener 22 Chwefror 2019**. Gweler tudalen 6 am fanylion pellach sy'n egluro sut i ymateb a rhoi eich barn.

O fewn 13 wythnos i 22 Chwefror 2019 bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefannau'r Cyngor a'r ysgol. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael o swyddfa'r ysgol ar gais hefyd. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymatebion i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynigion hefyd.

Ym mis Ebrill 2019 bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu parhau â'r cynigion rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol.

## Hysbysiad statudol

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a'i osod ym mhrif fynedfa Ysgol Sant Baruc neu'n agos ato. Bydd copïau o'r hysbysiad yn cael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau o staff. Gall yr ysgol ddosbarthu'r hysbysiad trwy'r e-bost hefyd. Bydd yr hysbysiad yn nodi manylion y cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod penodedig.

## Penderfynu ynghylch y cynnig

Bydd y Cyngor yn penderfynu ynghylch y cynnig. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi'u cael .

## Hysbysu ynghylch y penderfyniad

Yn dilyn penderfynu ynghylch y cynigion bydd yr holl bartïon â buddiant yn cael eu hysbysu ynghylch y penderfyniad a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

## Cwestiynau Cyffredin

*Beth os wyf yn byw ar Lannau'r Barri ac yn dymuno anfon fy mhlentyn i addysg cyfrwng Saesneg?*
Mae'r Cyngor wedi rhagfynegi nifer y disgyblion a fydd yn deillio o'r 900 o dai sydd i fod i gael eu hadeiladu ar ddatblygiad Glannau'r Barri. Byddir yn darparu ar gyfer y disgyblion hyn gan ddefnyddio'r lleoedd gwag presennol mewn ysgolion (gweler tablau 5 a 6). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd diffyg bach o ran lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg erbyn 2022. Gellid ateb y galw hwn trwy ailasesu'r capasiti yn ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf cafwyd gwared ar gapasiti o ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner trwy ailneilltuo ystafelloedd. Roedd gan yr ysgolion leoedd gwag yn flaenorol y gellid trefnu eu bod ar gael i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg. Mae'r ddwy ysgol hon o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri. Wrth i'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg gynyddu, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfatebol yn y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae 11 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ardal leol (radiws o 2 filltir) a gellir cael rhagor o wybodaeth yma:

**http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/primary/Primary-School-Admissions.aspx**

*Beth os na cheir y galw uwch am addysg cyfrwng Cymraeg?*
Mae'r Cyngor yn hyderus bod digon o dystiolaeth i awgrymu y bydd y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i gynyddu, gan adlewyrchu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd y gofyniad i hyrwyddo addysg ddwyieithog a chreu darpariaeth ychwanegol i gefnogi rhieni a disgyblion sy'n penderfynu pontio i addysg cyfrwng Cymraeg trwy ganolfan drochi neu ddarpariaeth debyg fel a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a natur ragweithiol hyn yn cynyddu'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir. Byddai unrhyw leoedd gwag mewn ysgolion yn cael eu rheoli fel y byddent gydag unrhyw un o ysgolion neu asedau eraill y Cyngor.

*Beth yw manteision addysg cyfrwng Cymraeg?*
Mae plant dwyieithog yn tueddu i gyflawni'n uwch o fewn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Mae dysgu ail iaith ar oedran cynnar yn helpu plant i ddatblygu clust ar gyfer ieithoedd ac yn rhoi mantais iddynt wrth ddechrau dysgu trydedd neu bedwaredd iaith wrth iddynt fynd yn hŷn. Yng Nghymru mae siarad Cymraeg yn sgil ar gyfer y gweithle, yn enwedig yn y sector cyhoeddus a'r sector gwasanaethau, ac yn sgîl newidiadau diweddar i'r gyfraith bydd ar fwy a mwy o gyflogwyr angen gweithlu dwyieithog. Mae dysgu trwy gyfrwng iaith arall yn helpu plant i ddatblygu mwy o sensitifrwydd i ddiwylliannau a chefndiroedd eraill. Mae siarad Cymraeg yn rhoi perthynas fwy clòs i bobl â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru.

*Pa gymorth sydd ar gael i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg?*
Nid yw'r mwyafrif llethol o rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro yn siarad Cymraeg eu hunain. Dyna pam fod ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg wastad yn cyfathrebu gyda rhieni yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ym mron pob achos bydd gwaith cartref yn cynnwys eglurhad Saesneg fel bod yr holl rieni'n gallu helpu eu plant gyda'r gwaith. Hefyd, mae nifer o gylchoedd chwarae cyn-ysgol yn y Fro sy'n cael eu rhedeg gan y sefydliad Mudiad Meithrin. Caiff addysg Gymraeg i oedolion ei hyrwyddo ledled Bro Morgannwg hefyd gydag ystod o gyrsiau ar gael ar bob lefel o lefel dechreuwyr i lefel hyfedredd. Ceir rhagor o wybodaeth o'r llyfryn ar fod yn ddwyieithog:
**https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Education%20and%20Skills/Admissions-Guide/Being-Bilingual-booklet-Welsh.pdf**

*Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad?*
Bwriedir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar safle newydd yr ysgol erbyn mis Ionawr 2020 a chael ei gwblhau erbyn mis Medi 2021.

*Pryd fyddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?*
Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn agor erbyn mis Medi 2021.

*A fydd pennaeth newydd?*
Byddai'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad trosglwyddo'n trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i'w telerau ac amodau cyflogaeth.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Ar y cynnig i gynyddu'r lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021**

Mae eich barn chi'n bwysig. Dywedwch wrthym beth ydych yn ei feddwl am y cynigion trwy:

- gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn **https://www.snapsurveys.com/wh/s.asp?k=154653143181**

neu

- ateb y cwestiynau ymgynghori ac ychwanegu eich safbwyntiau ar y ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad post ar waelod y ffurflen.

**Sylwer y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener 22 Chwefror 2019. Yn anffodus ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er y byddant yn cael eu hystyried gan y Cyngor wrth iddo wneud ei penderfyniad.

Dim ond yn dilyn cyhoeddi **hysbysiad statudol** y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

Gellir gofyn am weld unrhyw ymatebion a ddaeth i law dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid eu cyhoeddi. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw unigolyn megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei thynnu allan.

Eich Enw:
Cyfeiriad:
Cod Post:
Cyfeiriad E-bost:
Dyddiad:

Dywedwch wrthym ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

1. Rhiant ☐
2. Disgybl ☐
3. Llywodraethwr ☐
4. Aelod o Staff ☐
5. Preswylydd Lleol ☐
6. Arall (rhowch fanylion) ☐

**Ar y cynnig i gynyddu'r lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021**

## Cwestiynau

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych neu os nad ydych yn cefnogi'r cynnig yna eglurwch pam os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| |

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.

| |
|---|
| |

Unrhyw sylwadau eraill?

Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch isod os ydych yn dymuno cael eich hysbysu pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori ☐

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ehangu Ysgol Sant Baruc
Y Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holton
Y Barri CF63 4RU

**Dychwelwch y ffurflen hon at Gyngor Bro Morgannwg fan bellaf erbyn 22 Chwefror 2019 os gwelwch yn dda**

## Tudalennau Nodiadau

### Nodiadau ar y Ddogfen Ymgynghori

**Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg**

| **Rhywedd a Hunaniaeth o ran Rhywedd** | |
|---|---|
| Beth yw eich rhywedd? | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw |
| Pan gawsoch eich geni sut oeddech chi’n cael eich disgrifio? | ☐ Benyw<br>☐ Gwryw<br>☐ Rhyngrywiol<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |
| **Anabledd** | |
| A oes cyfyngiad ar eich gweithgareddau o ddydd i ddydd oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, afiechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am 12 mis neu fwy? | ☐ Oes – cyfyngiad mawr<br>☐ Oes – cyfyngiad bach<br>☐ Nac oes<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |
| **Oedran** | |
| Beth yw eich dyddiad geni? | |

| **Hunaniaeth Genedlaethol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hunaniaeth Genedlaethol – sut fyddech chi’n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?** | | | | |
| ☐ Cymreig | ☐ Seisnig | ☐ Albanaidd | ☐ Gwyddelig Gogledd Iwerddon | ☐ Prydeinig |
| ☐ Arall (rhowch fanylion) | ☐ Gwell gen i beidio â dweud | | | |

| **Grŵp Ethnig** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd – sut fyddech chi’n disgrifio eich grŵp ethnig?** | | | |
| **Gwyn** | | | |
| ☐ Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | ☐ Gwyddelig | | |
| ☐ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall (rhowch fanylion): | | |
| **Grwpiau ethnig cymysg/lluosog** | | | |
| ☐ Gwyn a Du Caribïaidd | ☐ Gwyn a Du Affricanaidd | ☐ Gwyn ac Asiaidd | |
| ☐ Unrhyw gefndir ethnig cymysg/lluosog arall (rhowch fanylion): | | | |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | | | |
| ☐ Indiaidd | ☐ Pacistanaidd | ☐ Bangladeshaidd | ☐ Tsieineaidd |
| ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (rhowch fanylion): | | | |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig** | | | |
| ☐ Affricanaidd | ☐ Caribïaidd | | |
| ☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (rhowch fanylion): | | | |
| **Grŵp ethnig arall** | | | |
| ☐ Arabaidd | | | |
| ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (rhowch fanylion): | | | |
| ☐ Gwell gen i beidio â dweud | | | |

## Y Gymraeg

**Disgrifiwch eich gallu iaith Gymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod.**

| | **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
|---|---|---|---|---|
| Dim | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sylfaenol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cymwys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Da | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhugl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Hunaniaeth Ryweddol

**Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut yr ydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Gwahanrywiol / strêt | ☐ Hoyw neu lesbiaid | ☐ Deurywiol |
| ☐ Arall | ☐ Gwell gen i beidio â dweud | |

## Crefydd

**Beth yw eich crefydd?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Dim crefydd | ☐ Cristnogaeth (pob enwad) | | ☐ Bwdhaeth |
| ☐ Hindŵaeth | ☐ Iddewiaeth | ☐ Islam | ☐ Sikhiaeth |
| ☐ Unrhyw grefydd arall (rhowch fanylion): | | ☐ Gwell gen i beidio â dweud | |

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw<br>☐ Nac ydw<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |
| Ydych chi wedi cymryd absenoldeb mamolaeth o fewn y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw<br>☐ Nac ydw<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

| | |
|---|---|
| Beth yw eich statws priodasol cyfreithiol neu eich statws cyfreithiol o ran partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw? | ☐ Sengl, hynny yw erioed wedi bod yn briod ac erioed wedi'ch cofrestru mewn partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw<br>☐ Priod ac yn byw gyda'ch gŵr/gwraig<br>☐ Wedi gwahanu ond yn dal yn briod yn gyfreithiol<br>☐ Wedi ysgaru<br>☐ Gweddw<br>☐ Mewn partneriaeth sifil gofrestredig rhwng pobl o'r un rhyw ac yn byw gyda'ch partner<br>☐ Wedi gwahanu, ond yn dal mewn partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw yn gyfreithiol<br>☐ Wedi bod mewn partneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol<br>☐ Yn bartner sy'n goroesi o bartneriaeth sifil rhwng pobl o'r un rhyw<br>☐ Gwell gen i beidio â dweud |